COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
9.30 a.m., Dydd Mercher 25 Tachwedd 2020
Fe'i cynhaliwyd mewn nifer o leoliadau, trwy feddalwedd Microsoft Teams

Busnes Agored y Cyngor – yn cynnwys cofnodion 1 i 11.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn Bresennol: John Graystone (yn y Gadair), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Caroline Davies, Tim Palazon, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd – hyd at gofnod 5 yn unig), Cathy Clark, Gareth Cork, Salamatu Fada, Jenni Jones-Annetts, Suzanne Samuel, Daryl Leeworthy, Stephen Nicholls, Dona Lewis, Marion Burke, Steve David (hyd at gofnod 8 yn unig), Chris Franks. Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.
Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd – cyfieithu dilynol).
Hefyd: Sam Emmett (tiwtor), Jane Bellis, Megan Simpson a Lindsey Witkowski (dysgwyr) – cofnodion 1 a 2 yn unig.
Ymddiheuriadau: Guy Wallace Smith.

2. Cyfranogwyr cwrs y Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant

Cyflwynodd Sam Emmett ei hun fel tiwtor a Swyddog Datblygu'r Cwricwlwm AOC|ALW (yn cyflenwi dros gyfnod absenoldeb mamolaeth) yn rhanbarth gogledd Cymru. Bwriadwyd cynnal cwrs Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant, a gwblhawyd yn ddiweddar, yn Wrecsam ond, yn hytrach, dyma oedd y cwrs cyntaf â chymhwyster achrededig i AOC|ALW ei gynnal yn gyfan gwbl ar-lein. Roedd y 3 dysgwr a oedd yn bresennol yn dod o'r Art and Soul Tribe (https://www.artandsoultribe.co.uk), sef menter gymdeithasol yn Sir y Fflint, a ddisgrifiodd sut roedd gwneud y cwrs o adref a'r fformat rhithwir wedi bod yn addas i bob un ohonynt – oherwydd cyfrifoldebau gofal plant, oherwydd eu bod yn gweithio adref ac oherwydd anabledd a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgu mewn lleoliadau ffisegol.

Bu'r cwrs yn ddelfrydol o ran datblygu eu busnes, a oedd â'r nod o ehangu fel mudiad creadigol yn arbenigo mewn digwyddiadau ac yn y cyfryngau, gyda phwyslais ar ddarparu addysg ar gyfer gwydnwch, lles a chyflogadwyedd. Materion iechyd meddwl, magu hyder a darpariaeth anghenion arbennig mewn gweithdai/cyrsiau byr heb achrediad oedd eu bara menyn. Ymhlith eu cleientiaid oedd Cyngor Sir y Fflint (addysg ABCh pobl ifanc 14 i 16 oed), myfyrwyr lefel mynediad a chyn aelodau'r lluoedd arfog. Roedd y mudiad wedi teimlo bod angen hyfforddiant mwy ffurfiol ar ei staff ac roedd rhai o'i reolwyr wedi dilyn cwrs y Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant hefyd.

Dymunai aelodau'r Cyngor wybod sut roedd Art & Soul Tribe wedi clywed am y Sefydliad, o ystyried heriau sefyll allan ymhlith y dorf o ran cyfathrebu a marchnata mewn marchnad ddigidol (chwilio Google oedd yr ateb), a beth oedd barn y dosbarth yn ei gyfanrwydd am ddysgu rhithwir o gymharu â dysgu wyneb yn wyneb. Yn wir, roedd dysgu cyfunol wedi gwella cynwysoldeb, mewn egwyddor: efallai mai'r ffordd ymlaen byddai cynnig dwy sesiwn ar-lein i bob un sesiwn a gynhelir mewn ystafell ddosbarth.

Diolchwyd i bawb am eu brwdfrydedd a'u cyfraniadau at y cyfarfod, a chadarnhawyd bod arfer da o'r cwrs hwn wedi cael ei rannu gyda thiwtoriaid eraill AOC|ALW drwy Moodle.

3. Aelodau Newydd y Cyngor ac Aelodau yn Ymadael

Croesawodd y Cadeirydd 3 Aelod Cyngor a benodwyd/etholwyd yn ddiweddar i'w cyfarfod cyntaf: Dona Lewis (Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol), Marion Burke (Wales TUC Cymru – llywodraethwr penodedig i sedd Sefydliad Cyswllt a Phartner, wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor), a Steve David (staff-lywodraethwr etholedig, a thiwtor). Cyflwynont eu hunain yn eu tro. Rhoddodd Julie Cook y gorau i'w rôl ers y cyfarfod diwethaf a diolchwyd iddi am ei chyfraniadau dros nifer o flynyddoedd. Hefyd, cyhoeddwyd y byddai Guy Wallace Smith yn rhoi'r gorau i'w sedd ar ôl tair blynedd ar ddiwedd mis Tachwedd: siaradodd Chris Franks yn werthfawrogol am ei gyfraniad. Byddai'r sedd honno'n cael ei llenwi gan Judith Evans, yr oedd ei phenodiad wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor.

4. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Medi 2020 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams, yn gofnod cywir. Byddai'r holl bwyntiau gweithredu/materion yn codi yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer Tachwedd 2020 gydag Adroddiad ar y Cwricwlwm, ynghyd â chofnodion y Pwyllgor Adnoddau (2 a 28 Hydref 2020), Pwyllgor Profiad y Dysgwyr (22 Hydref 2020), ac amryw bapurau Cyfrifon Rheoli

O ystyried pwysigrwydd cynnal sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad, cynhwyswyd nifer o bapurau ac eitemau ar wahân, yn dybiannol, yr agenda mewn trafodaeth drylwyr ar y mater pwysig hwn. Dechreuodd Kathryn Robson trwy gyflwyno cwmpas eang yr heriau a oedd yn wynebu'r Sefydliad, gan gynnwys y ffaith y gallai adhawlio arian gan Lywodraeth Cymru arwain at brinderau sylweddol a diffyg yn y flwyddyn ariannol bresennol. Teimlai fod cyfleoedd yn cyflwyno'u hunain hefyd, serch hynny: roedd cyfraniad y dysgwyr ar ddechrau'r cyfarfod wedi dangos pa mor dda roedd y Sefydliad wedi esblygu yn y sefyllfa ddigynsail hon. Roedd angen mynd ar drywydd busnes a chyfleoedd masnachol newydd, heb golli ethos AOC|ALW, a theimlai fod y diffiniad o bobl ddifreintiedig neu agored i niwed, sef y bobl rydym am eu cyrraedd yn anad dim, wedi newid i raddau o ganlyniad i Covid-19 a hynny mewn ffordd byddai'n galluogi'r Sefydliad i ymestyn ei gyrhaeddiad.

Cyfeiriodd Mark Baines at yr Adroddiad ar y Cwricwlwm, y ffaith bod ein cynnig ar-lein megis dechrau fel dull cyflwyno, a bod golwg wahanol iawn ar ein darpariaeth o gymharu â dim ond 9 mis cynt. Eto, roedd yr addasu wedi bod yn gymharol effeithiol er mwyn cyrraedd 23% o'r targed darparu addysg am y flwyddyn hyd yn hyn: roedd y ffaith bod dros ddwy ran o bump o hynny ar gyrsiau achrededig yn dangos ymatebolrwydd canmoladwy i newid. Roedd staff wedi parhau'n hyblyg ac yn teimlo'n gadarnhaol i raddau helaeth - efallai roedd hyn yn ganlyniad gwell nag a welwyd mewn rhai rhannau o'r sector addysg uwch hyd yn hyn. Datganodd newyddion pwysig hefyd, sef bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar darged diwygiedig is, sef cyflwyno 60% ar gyfer y flwyddyn, yn dilyn trafodaethau pellach gyda swyddogion. Roedd hyn yn gam cadarnhaol, ond ni ddylai olygu boddhad dim ond o gyrraedd y cyfanswm hwnnw: dylai'r targed blaenorol, sef 85%, barhau'n darged 'effeithiol' i AOC|ALW, oherwydd byddai rhagori ar y targed gostyngol yn dda yn strategol. Sicrhaodd lobïo a chyfarfodydd parhaus ColegauCymru gydag Aelodau'r Senedd a chynrychiolwyr swyddfa'r Gweinidog Addysg fod AOC|ALW wedi cadw'i broffil yn uchel.

Roedd aelodau'r Cyngor yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi dangos realaeth o ran gostwng y targed addysg, gan felly leihau'r pwysau ar y Sefydliad, ond mynegodd un aelod bryder o hyd y gallai Llywodraeth Cymru eto dynnu rhai agweddau penodol ar ei chymorth ariannol gyda'i llaw arall. Dylai tystiolaeth o arfer dda a hanesion o lwyddiant cadarnhaol barhau i gael eu defnyddio i gefnogi achos AOC|ALW. Cydnabu Marion Burke, ar ran y ddarpariaeth undebau llafur, fod y pontio i ddosbarthiadau ar-lein wedi bod yn hwylus ac yn broffesiynol. Hefyd, cydnabuwyd ei bod o'r pwys pennaf oll fod y Sefydliad yn cadw dysgwyr yn ddiogel trwy dderbyn y peryglon gwirioneddol a'r amgyffredion o beryglon o agor canolfannau cymunedol (yr oedd rhai ohonynt wedi cael eu helpu'n ariannol drwy'r cynllun ffyrlo), o safbwynt heriau cyfreithiol a heriau yswiriant achosion Covid-19. Er bod cyfeiriad yn yr Adroddiad ar y Cwricwlwm at yr hyn a oedd yn cael ei gyflawni gyda'r dysgwyr mwyaf difreintiedig, roedd Daryl Leeworthy o'r farn bod rhai grwpiau'n cael eu colli o hyd: roedd achos i'r sefydliad ddod yn fwy blaengar a darparu ar gyfer cymunedau nad oeddent yn cael sylw da, ar y cyfan - pobl BAME ac LHDT er enghraifft, y gellid eu targedu'n fwy penodol.

Cyfeiriodd Stephen Nicholls at gofnodion dau gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd, gan amlygu'r canlyniad da ym mlwyddyn ariannol 2019-20 a'r grantiau newydd a gafwyd yn 2020-21. Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd osgoi colli gwerthoedd hanesyddol craidd ar yr un pryd â chynnal hyfywedd a dod o hyd i fusnes newydd, er enghraifft ymhlith dysgwyr iau ac, o bosibl, mwy o bwyslais ar ddilyniant drwy gyrsiau olynol.

Soniodd Caroline Davies fod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr hefyd wedi myfyrio ar lawer o'r un materion hyn yn ei gyfarfod y mis blaenorol. Fodd bynnag, ar sail tystiolaeth bersonol a thystiolaeth ar lafar, er mwyn i'r Sefydliad lwyddo i ddenu niferoedd sylweddol o ddysgwyr newydd o'r fath, teimlai fod angen i'r Sefydliad dalu mwy o sylw i gynnwys a defnyddioldeb ei wefan: nid oedd ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddigon amlwg ychwaith, boed hynny ar Facebook, Twitter, Instagram neu blatfformau eraill, o gymharu â'i gystadleuwyr. Roedd angen mireinio'r agweddau hynny er mwyn denu'r marchnadoedd posibl newydd, mewn gwirionedd. Ychwanegodd Suzanne Samuel nad oedd y wefan ychwaith yn ddigon tryloyw o hyd o ran darparu manylion ffioedd cyrsiau, er ei bod hi wedi codi'r mater yn flaenorol: roedd peryglon peidio â bod yn gwbl agored gyda myfyrwyr newydd posibl, y byddid yn adfer costau llawn drwyddynt (er nad oedd Daryl Leeworthy yn cytuno'n llwyr ar y mater hwn).

Un datblygiad da ym marn Steve David oedd y cyfeiriad yn yr Adroddiad ar y Cwricwlwm at y cerdyn CDCS (yn gysylltiedig â sgiliau adeiladu); teimlai fod hyn yn hir ddisgwyliedig. Roedd yn optimistaidd y byddai gweithgarwch cymunedol yn adfywio yn sgil ailgychwyn addysgu wyneb yn wyneb, ond roedd y potensial i ehangu'n ddigidol yn parhau, trwy gael darpariaeth ar-lein a allai fod yn genedlaethol. Un profiad a grybwyllwyd, sef profiad sefydliad gwahanol, oedd llai o ddysgwyr fel y cyfryw ond y byddent yn cael eu cadw'n well wrth iddynt ymgymryd â mwy o gyrsiau, gan felly helpu i gyflawni targedau addysg cyffredinol.

I gloi, diolchwyd eto i holl staff AOC|ALW am eu gwaith caled ac am gyfraniad gwirfoddol y bobl a oedd yn gysylltiedig â changhennau a'r aelodaeth gyffredinol. Derbyniwyd bod lle o hyd i ddatblygu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ac y dylai penodi Swyddog Cyfathrebu a Marchnata Digidol cyn hir gynorthwyo â hynny. Fodd bynnag, hawliwyd yn fwy cyffredinol ein bod yn cael ein hadnabod fwyfwy fel y sefydliad arbenigol ar addysg oedolion yn y sector ac nad oeddem ar y cyrion cymaint ag yn y gorffennol.

Roedd un mater ariannol penodol arall, yn ymwneud â chytundeb y dyfarniad tâl i'r holl staff ar gyfer 2020-21. Cadarnhawyd cyllid ychwanegol at y diben hwn gan Lywodraeth Cymru, ac roedd y dyfarniad yn amrywio o 2.75% ar gyfer staff uwch i 8.48%, yn dibynnu ar y radd, gyda chynnydd o 3.1% i staff cymorth busnes. Roedd yr undebau llafur wedi nodi'r cynnig yn unig ac nid oeddent wedi'i wrthod eleni.
Cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad (gan GolegauCymru) i ddyfarnu'r codiadau cyflog fel y'u

pennwyd, gan eu hôl-ddyddio i 1 Awst 2020, wrth lunio'r gyflogres ym mis Rhagfyr ar gyfer yr holl staff heblaw am y Prif Weithredwr a'r Clerc. Cododd Steve David gwestiwn ynghylch p'un a allai fod rhagor o hyblygrwydd cadarnhaol o ran cyflog tiwtoriaid, gan y bu gostyngiad mewn sawl achos yn nifer yr oriau a addysgwyd ers 1 Awst, gan olygu bod effaith Covid-19 ar diwtoriaid AOC|ALW wedi bod yn fwy niweidiol nag i staff eraill.

6. Cynllun Strategol 2021/2024

Prin oedd y newidiadau i'r ddogfen hon o gymharu â'i fersiwn 2018/2021 (y fersiwn dreigl, ddiweddaraf): y diweddariadau a'r diwygiadau allweddol oedd cryfhau'r cyfeiriadau at ddatblygiadau digidol, dysgu ar-lein a'r mudiad gwirfoddol. Cafodd aelodau'r Cyngor eu gwahodd i roi sylwadau arno'n fanwl dros yr wythnosau nesaf, ar yr un pryd ag y byddai'n cael ei anfon at amrywiaeth o randdeiliaid y Sefydliad at ddiben ymgynghori. **Yna, byddai fersiwn derfynol yn cael ei dychwelyd i'r Cyngor i'w chymeradwyo'n derfynol yn ei gyfarfod ym Mawrth 2021. Cytunodd y Cyngor y dylid defnyddio'r fersiwn bresennol at ddiben ymgynghori**, gan nodi'n gymeradwyol y ffaith bod y ganrif a mwy o hanes y Sefydliad - neu i fod yn fanwl gywir hanes ei rhagflaenwyr - yn cael lle blaenllaw ar ddechrau'r ddogfen.

7. Y Gofrestr Risg ar gyfer Tachwedd 2020

Roedd y pwynt am adhawlio ariannol posibl gan Lywodraeth Cymru a godwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi'i adlewyrchu erbyn hyn yn risg 1.2.3. Gofynnwyd cwestiwn am sicrwydd gwarantedig i'r symiau o arian yng nghyfrifon banc a chymdeithas adeiladu'r Sefydliad, pe bai chwalfa ariannol. Esboniwyd mai diben y cyfrifon niferus oedd lledaenu'r risg ymhlith cyrff gwydn yn ariannol a oedd hefyd yn ymgorffori meini prawf moesegol fel y'u cymhwyswyd gan y Pwyllgor Adnoddau. Roedd polisi yswiriant ar gyfer y balansau.

8. Cyfrifon Rheoli ar gyfer blwyddyn ariannol Awst 2019 - Gorffennaf 2020, ac ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn bresennol (1 Awst - 31 Hydref 2020)

Roedd Mark Baines ond am ailddatgan graddfa'r anwadalrwydd a oedd wedi nodweddu hanner olaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac nad oedd wedi diflannu eto, felly roedd cynllunio'n parhau'n anodd ar gyfer 2020-21. Roedd yn fwy sicr am yr adhawlio gan Lywodraeth Cymru nawr nag yr oedd pan luniwyd papurau'r cyfrifon hyn. Byddai fersiwn archwiliedig o gyfrifon 2019-20 yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr.

9. Y Mudiad Gwirfoddol - yn cynnwys Cynnig Rhestr Ddiwygiedig o Sefydliadau Cyswllt a Phartneriaid

Cyfeiriodd Kathryn Robson at y 3 siart a luniodd ran o'r papurau ar yr eitem hon, a amlinellodd y llinynnau statudol wrth wraidd y Sefydliad, cyfansoddiad corff y Cyngor, a'r strwythur llywodraethu a rheoli a oedd yn deillio ohono. Cafwyd cynnig i ailwampio strwythur Grwpiau oherwydd yr amgyffrediad bod ymdrechion rhai ohonynt yn cael eu dyblygu, ac i greu Grŵp Mudiad Gwirfoddol newydd i ysgogi gwelliannau wrth ddelio â materion yn ymwneud â'r aelodaeth (roedd strategaeth wrthi'n cael ei pharatoi), yr ymwneud gan ganghennau (gan gynnwys y grŵp gorchwyl a gorffen ar yr agwedd honno, nad oedd wedi cyfarfod eto), a sut roedd Fforymau Rhanbarthol yn gweithredu. Cynigiwyd dod â phob Grŵp arall i ben am eu bod yn aneffeithlon braidd, gan fod Pwyllgorau i bob diben yn ymgymryd â'u rolau goruchwylio. Ni fyddai hyn yn atal creu grwpiau gorchwyl a gorffen serch hynny - fel y grŵp a oedd yn cyd-fynd â'r prosiect ymchwil ar hyn o bryd.

Roedd Daryl Leeworthy o'r farn y byddai aelodaeth arfaethedig Grŵp y Mudiad Gwirfoddol bron yn gyfan gwbl o blith pobl â rolau cynrychioliadol yn y Sefydliad yn barod, yn ail-greu'r un canlyniadau o ran y lefelau ymgysylltu (anfoddhaol) a welwyd yn ddiweddar. Roedd o'r farn y dylai'r Grŵp ddenu egni newydd, gyda chynrychiolaeth ehangach o blith ystod fwy amrywiol o'n haelodau - trwy ei drin yn fater dinesig yn fwy na mater gweithdrefnol - ac y dylai adrodd i bob un o dri Phwyllgor y Cyngor ar ryw ffurf. Roedd aelod arall yn meddwl tybed pam, os oedd y mudiad gwirfoddol yn thema drawstoriadol mor bwysig, yr oedd arno angen ei Grŵp ei hun o gwbl? Roedd aelodau eraill o'r Cyngor hefyd o'r farn bod nifer rhy fawr o wirfoddolwyr yn cael ei gynnig ar gyfer y Grŵp ar y dechrau, y dylid rhoi blaenoriaeth i swyddogion cangen nad oeddent ar hyn o bryd yn aelodau o bwyllgorau AOC|ALW ac, er bod addysg ddinesig yn broses hirdymor bwysig, roedd angen ymdrin â'r broblem hon a nodwyd yn gywir nawr trwy ei gweithredu'n gyflym a hynny trwy gefnogi menter dan arweiniad y Prif Weithredwr. I gloi, **cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r newidiadau arfaethedig, yn amodol ar hyblygrwydd o ran yr aelodaeth ac union gylch gwaith Grŵp y Mudiad Gwirfoddol (y dylai'r Grŵp ei hun gytuno arno yn ei gyfarfodydd cychwynnol). Mewn pleidlais, roedd 12 aelod o'r Cyngor o blaid y cynigion gyda'r un amod hwnnw, nid oedd unrhyw aelod yn eu herbyn, a chafodd 1 bleidlais ei hatal**.

Yna, cyfeiriodd y Cyngor at y papur ychwanegol yn amlinellu'r rhestr ddiwygiedig o gategorïau sefydliadau cyswllt a phartner y gofynnodd y Cyngor amdani yn ei gyfarfod blaenorol, a chynigiwyd y dylai 9 mudiad ychwanegol a restrwyd arni gael eu derbyn i aelodaeth y Sefydliad, yn rhad ac am ddim. **Cadarnhaodd y Cyngor aelodaeth rad ac am ddim i'r naw corff ychwanegol hynny**.

10. Hunanasesu trafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Trafodwyd manteision ac anfanteision dechrau yn y bore o gymharu â dechrau'n fwy traddodiadol amser cinio. At ei gilydd, cytunwyd i barhau i ddechrau cyfarfodydd y Cyngor tua chanol y dydd. Hefyd, gwnaed sylwadau am eglurder rhifau tudalennau/rhannu'r papurau yn y bwndel PDF a ddarparwyd ac am esblygiad ymarfer ar gyfer oes y cyfarfodydd rhithwir, a gofynnwyd am ystyried rhoi mwy o bwyslais ar gyflwyniadau gweledol a dibynnu'n llai ar ddeunyddiau ysgrifenedig yn unig.

11. Dyddiadau cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2021

Disgwyliwyd digwyddiadau rhithwir o hyd, i'w cynnal fel a ganlyn (gan ddechrau am 12.30 p.m.):

- Dydd Llun 25 Ionawr
- Dydd Iau 11 Mawrth
- Dydd Mawrth 30 Mawrth (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Diwrnod Cynllunio Strategol – dechrau yn y bore)
- Dydd Mawrth 18 Mai
- Dydd Iau 27 Gorffennaf (dyddiad dros dro, o hyd)

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer Tachwedd 2020	Cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad (gan GolegauCymru) i ddyfarnu'r codiadau yng nghytundeb cyflog 2020/21 fel y'u pennwyd, gan eu hôl-ddyddio i 1 Awst 2020,	KR / MB / CH	Rhagfyr 2020

		wrth lunio'r gyflogres ym mis Rhagfyr ar gyfer yr holl staff, heblaw am y Prif Weithredwr a'r Clerc.		
Cofnod 6	Cynllun Strategol 2021/2024	Byddai fersiwn derfynol o'r Cynllun Strategol yn cael ei dychwelyd i'r Cyngor i'w chymeradwyo'n derfynol yn ei gyfarfod ym Mawrth 2021. Cytunodd y Cyngor y dylid defnyddio'r fersiwn bresennol at ddiben ymgynghori yn ehangach gyda rhanddeiliaid.	KR	Mawrth 2021
Cofnod 9	Adroddiad Aelodaeth y Mudiad Gwirfoddol – gan gynnwys y Rhestr o Sefydliadau Cyswllt a Phartner	Cymeradwyodd y Cyngor y diwygiadau arfaethedig i'r siart llywodraethu ac aelodaeth (dirwyn pob Grŵp presennol i ben a chreu Grŵp y Mudiad Gwirfoddol), yn amodol ar hyblygrwydd cychwynnol o ran yr aelodaeth ac union gylch gwaith y Grŵp hwnnw (y dylai'r Grŵp ei hun gytuno arno yn ei gyfarfodydd cychwynnol). Hefyd, cadarnhaodd y Cyngor aelodaeth rad ac am ddim i naw corff partner a chyswllt ychwanegol.	KR / ST	Ionawr 2021